

HAVE YOU SEEN THIS FUNGUS?



© Jon Hudson



© Sam Bosanquet

.

- Are you a woodland manager or contractor? Do you have areas of undisturbed hazel woods/scrub? Then the Carmarthenshire Biodiversity Partnership would like your help.
- We are looking for records for the rare *Hypocreopsis rhododendri* Hazel Gloves fungus. It has recently been found at two sites in the county and more records would be welcome.
- *H. rhododendri* is usually found in the UK on standing dead stems of hazel, but has also been recorded on living and cut hazel branches and living and dead branches of blackthorn, willow and wild rose. Its pale tan, bracket-like appearance with extending finger-like lobes make it very distinctive.
- The scientific name of the fungus (*Hypocreopsis rhododendri*) stems from the fact that it was once found growing on *Rhododendron maximum* in the USA: it is not found on rhododendron in the UK.
- The best time to look for hazel gloves is between August and March, although fruit bodies may still be visible into the summer.
- If you find this fungus [please get in touch](#). If possible take a photo and record the grid reference. (UK Grid Reference Finder - <http://gridreferencefinder.com> can help you do this).

Contact: Biodiversity Officer, 01558 825390, Biodiversity@carmarthenshire.gov.uk



Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire Biodiversity Partnership

www.carmarthenshirebiodiversity.co.uk



A YDYCH WEDI GWELD Y FFWNG HWN?



© Jon Hudson



© Sam Bosanquet

.

- A ydych yn rheolwr ar goetir neu'n gcontractwr coetiroedd? A oes gennych lecynnau lle mae prysgwydd/coed cyll wedi cael llonydd i dyfu ers tro? Yna hoffai Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin gael cymorth gennych.
- Rydym yn chwilio am gofnodion o ffwng prin sef menyg cyll (*Hypocreopsis rhododendri*). Daethpwyd o hyd i'r ffwng hwn yn ddiweddar mewn dau lecyn yn y sir a byddem yn falch o gael rhagor o gofnodion.
- Ym Mhrydain mae'n tyfu fel rheol ar fonion cyll gwyw sy'n dal i sefyll, ond mae'r rhywogaeth wedi ei chofnodi hefyd ar ganghennau cyll byw ac ar ganghennau cyll sydd wedi eu tocio yn ogystal ag ar ganghennau gwyw drain duon, helyg a llwyni rhosod gwylt. Melyn gwan yw lliw y ffwng hwn sy'n tyfu ar ffurf ysgwyddau y mae llabedau sy'n ymdebygu i fysedd yn ymestyn ohonynt, gan beri bod y ffwng yn hawdd iawn ei adnabod.
- Deillia enw gwyddonol y ffwng (*Hypocreopsis rhododendri*) o'r ffaith y daethpwyd o hyd iddo yn tyfu ar *Rhododendron maximum* yn yr Unol Daleithiau: nid oes cofnod ohono'n tyfu ar rododendron ym Mhrydain.
- Yr adeg orau i chwilio am fenyg cyll yw rhwng misoedd Awst a Mawrth, er bod posibilrwydd fod y rhannau ffrwytho yn weladwy o hyd tan yr haf.
- Cofiwch gysylltu â ni os dewch chi o hyd i'r ffwng hwn. Os oes modd tynnwch lun a chofnodi'r cyfeirnod grid. (Gall yr UK Grid Reference Finder - <http://gridreferencefinder.com> eich helpu i wneud hynny).

Manylion Cyswllt: Swyddog Bioamrywiaeth, 01558 825390, Biodiversity@sirgar.gov.uk